

Gochelwch rhag Twyll Ffioedd Dysgu — Peidiwch â Chael Cam

Beth yw Twyll Ffioedd Dysgu a sut mae'n gweithio?

Yn ddiweddar, mae sgamwyr wedi bod yn cysylltu â myfyrwyr i ddod yn gyfaill iddynt a dweud wrthynt fod ffordd o leihau costau ffioedd dysgu'r brifysgol. Maen nhw'n addo gostyngiad neu gyfradd gyfnewid well os ydych chi'n eu talu nhw - ac yn hawlio y byddan nhw'n talu eich ffioedd i Met Caerdydd yn gyfnewid am hynny.

Efallai mai myfyriwr arall (ym Met Caerdydd neu rywle arall) yw'r person sy'n dod atoch, neu gallai fod yn ffrind, yn 'gefnder', yn 'ewythr' neu'n gydnabod i'r teulu. Byddant yn cynnig trefnu gostyngiad i chi drwy dalu ar eich rhan — naill ai'n gofyn i chi dalu eich arian i rywun arall neu dalu drwy wefan a allai edrych yn gwbl ddilys.

Mae cynigion fel y rhain fel arfer yn rhan o sgam cerdyn, lle gwneir taliadau i gyfrif prifysgol myfyriwr gan ddefnyddio cardiau wedi'u dwyn.

Bydd y person yn gwneud y taliad tuag at eich ffioedd fel y cytunwyd, felly gall popeth ymddangos yn ddilys i ddechrau. Fodd bynnag, bydd y taliad naill ai'n cael ei wrthod, neu bydd yn troi'n annilys - yn aml ddyddiau neu wythnosau lawer yn ddiweddarach, unwaith y sylweddolir bod y cerdyn talu wedi'i ddwyn neu ei glonio.

Weithiau, bydd sgamwyr yn ceisio gwneud nifer o daliadau o werth isel gan ddefnyddio sawl cerdyn gwahanol nes bod un yn gweithio.

Y canlyniad yw eich bod wedi colli'ch arian ac, yn ddiarwybod i chi, wedi dod ynghlwm wrth weithgarwch anghyfreithlon. Mae eich Ffioedd Dysgu yn dal yn ddyledus i Met Caerdydd.

Er mwyn osgoi twyll o'r fath, dim ond yn uniongyrchol i Met Caerdydd y dylech dalu eich ffioedd. Gallwch ddod o hyd i fanylion am sut i wneud hynny [yma](#). Os oes gennych gwestiynau o hyd, [cysylltwch](mailto:cysylltwch@cardiffmet.ac.uk) â'r Tîm Ffioedd Dysgu drwy e-bost ar tuitionfees@cardiffmet.ac.uk

Sut i osgoi Twyll Ffioedd Dysgu

- Byddwch yn wiliadwrus o bobl sy'n cysylltu â chi ar sianeli cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Instagram, WeChat neu unrhyw ddull arall
- **Dim ond i'r brifysgol yn uniongyrchol y dylech dalu ffioedd dysgu, ac nid trwy drydydd parti.**
- Os bydd rhywun yn cynnig cyfradd gyfnewid ostyngol i chi, anwybyddwch hynny, mae'n debygol mai twyll ydyw.
- Peidiwch â chael eich rhoi dan bwysau i wneud taliadau am fod 'cynnig yn dod i ben', oherwydd bydd troseddwyr yn ceisio eich rhuthro neu eich cynhyrfu.

- Rhowch wybod i'r heddlu am unrhyw gyswllt amheus.
- Peidiwch â rhannu gwybodaeth bersonol na manylion mewngofnodi.
- Peidiwch â rhannu eich rhif prifysgol, cyfeiriad e-bost na manylion mewngofnodi gydag unrhyw un.
- Peidiwch â rhannu manylion cerdyn credyd neu ddebyd gydag unrhyw un.
- Peidiwch â thalu unrhyw fath o ffi ddysgu mewn arian parod i unigolion neu trwy gysylltiadau cyfryngau cymdeithasol.
- Cadwch lygad am gyfathrebu fel hysbysebion ac e-byst sydd â sillafu a gramadeg gwael
- Cadwch lygad am gyfeiriadau e-bost amheus.
- **Cofiwch: Os yw cynnig neu gymhelliad yn ymddangos yn rhy dda i fod yn wir, yn gyffredinol, mae'n dwyllodrus!**

Beth sy'n digwydd nesaf

- Os ydych yn anffodus wedi cael eich twyllo, bydd yr arian a drosglwyddwyd i Met Caerdydd yn cael ei adennill gan y banc neu ddarparwr y cerdyn. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd eich dyled myfyriwr yn cael ei adfer, felly bydd eich ffioedd dysgu'n ddyledus i'r brifysgol o hyd.
- Bydd y Brifysgol yn hysbysu'r Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol bod ymgais i dwyllo wedi digwydd.

Beth i'w wneud os byddwch wedi cael eich twyllo

- Mae twyll ffioedd dysgu yn drosedd a gyflawnir yn eich erbyn chi, y myfyriwr, ac efallai y byddwch yn penderfynu rhoi gwybod i'r heddlu am hyn. Ni all y Brifysgol hysbysu'r heddlu am y mater ar eich rhan, ond gall y Tîm Ymgysylltu Byd-eang, Gwasanaethau Myfyriwr a/neu Undeb y Myfyriwr roi cymorth. Mae'r dolenni cyswllt isod.
- Gallwch roi gwybod i [Action Fraud](#) am y drosedd
- Os ydych chi'n credu bod myfyriwr arall ym Met Caerdydd yn rhan o'r twyll, dylech gysylltu â'r Rheolwr Cwynion ac Ymddygiad drwy e-bost ar complaints@cardiffmet.ac.uk i roi gwybod am y camymddwyn. Dylech

ddarparu copïau o negeseuon e-bost a sgrinluniau, os ydynt ar gael. Mae'r dolenni cyswllt isod.

Rhagor o wybodaeth

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn:

- [Action Fraud](#) — Canolfan Hysbysu Twyll a Seiberdroseddu Cenedlaethol (DU)
+44(0)300 123 2040
- [Twyll, triciau a sgamiau](#) — Twyll FISA (canllawiau Llywodraeth y DU)
- [UKCISA](#) — Twyll Ariannol (Cyngor y DU dros Faterion Myfyrwyr Rhyngwladol)
- [DCPCU](#) — Uned Benodedig i Droseddau Cerdyn a Thaliadau

Cysylltiadau Met Caerdydd

- Gall y Tîm Ffioedd Dysgu gynorthwyo o ran pryd a sut i dalu eich ffioedd. Gallwch gysylltu â nhw trwy e-bost ar
 - tuitionfees@cardiffmet.ac.uk
 - +44(0)29 2041 6083
- Gall y Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr Byd-eang gynnig cyngor os ydych yn cael trafferth talu eich ffioedd neu os oes gennych ymholiadau FISA. Gallwch gysylltu â nhw ar
 - intstudentadvice@cardiffmet.ac.uk
 - +44 (0)29 2041 6494
- Mae'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol i Fyfyrwyr yn darparu cymorth os ydych mewn trafferthion ariannol. Gallwch gysylltu â nhw ar
 - financeadvice@cardiffmet.ac.uk
 - +44(0)29 2041 6170